

national slate museum
amgueddfa lechi cymru

# sylfaen

## gweithgareddau 1-6

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# sylfaen 1

## sut oedd chwarel dinorwig yn gweithio — tiwtor

**Nod: Egluro cefndir y gwaith trwy gyfrwng sgwrs syml, lluniau a gweithgareddau dysgu geirfa.**

**Camau**


1. Bydd eisiau i'r myfyrwyr ddefnyddio'r lluniau a'r cardiau sy'n cyd-fynd ag uned Mynediad 1 a'u gosod gyda'i gilydd wrth wrando ar y sgwrs gan y tiwtor.
2. Gellir dosbarthu'r daflen o dermau technegol ymlaen llaw er mwyn hwyluso'r gwaith.
3. Yna bydd eisiau iddyn nhw weithio mewn parau i geisio cynhyrchu brawddeg syml am bob llun/gair.



# sylfaen 1

## sut oedd chwarel dinorwig yn gweithio? dysgwr

**Sut oedd Chwarel Dinorwig yn gweithio?**



Tua 1870, roedd 3,300 o ddynion yn gweithio yn Chwarel Dinorwig. Roedd dwy ran i'r gwaith:

**A. Y chwarel ar y mynydd.**
Roedd 3,000 o chwarelwyr yn gweithio efo'r llechi.

**B. Y gweithdai yn y Gilfach Ddu.**
Roedd 300 o beirianwyr a chrefftwyr eraill yn gweithio yno.

**A. Y Chwarel**

Roedd pedwar cam i waith y chwarel:

a) Chwythu'r graig, neu saethu'r graig
b) Hollti'r graig a'i chario i lawr mewn wagenni
c) Gwneud y llechi
ch) Cario'r llechi i'r porthladd



1. Y Bonc
   Dyma'r enw ar y silff ar ochr y mynydd.
   Dyma lle roedd y dynion yn gweithio i chwythu'r graig i gael y llechfaen.

2. Piler a chlwt
   Roedd pileri o graig yn dod o'r mynydd.
   Roedden nhw'n hollti'r pileri yn glytiau ac yn cario'r clytiau i'r gwaliau.
   Roedden nhw'n gwneud y gwaith efo llaw.

3. Hollti a naddu
   Roedd un partner yn hollti'r clwt yn llechi. Roedd o'n gobeithio cael 16 llechen o bob clwt.
   Roedd y partner arall yn naddu'r llechi yn barod i fynd ar y to.

4. Teithio
   Roedd y llechi'n dod i lawr y mynydd ar yr incléin ac wedyn yn mynd ar y trên i'r Felinheli.

# sylfaen 1

## sut oedd chwarel dinorwig yn gweithio? dysgwr

**B. Y Gilfach Du**

Dyma lle roedd gweithdai'r chwarel.
Roedd peirianwyr a chrefftwyr yn gweithio yma.
Roedden nhw'n gwneud offer ac arfau'r chwarel yma.
Roedden nhw'n gwneud gwaith cynnal a chadw ar beiriannau'r chwarel.

Dyna pam roedden nhw'n galw'r Gilfach Ddu yn 'Galon y Chwarel'.

Mi wnaeth y chwarel gau yn 1969 ac mi wnaeth yr Amgueddfa agor yn 1972.

Yn yr Amgueddfa dach chi'n medru gweld sut roedd y chwarel a'r gweithdai yn gweithio a sut roedd y bobl yn byw.

**Termau technegol**

| | | |
|---|---|---|
| chwarelwr/wyr | - | *quarryman/men* |
| peirianwyr | - | *engineers* |
| crefftwr/wyr | - | *craftsman/men* |
| saethu neu chwythu'r graig | - | *to blast the rock* |
| piler/i | - | *a pillar of slate from the side of the mountain* |
| clwt/clytiau | - | *a smaller piece of slate* |
| gwal/iau | - | *small open-sided sheds on the mountainside* |
| hollti | - | *to split* |
| naddu | - | *to shape the slate* |
| offer | - | *equipment* |
| arfau | - | *quarrymen's tools* |
| cynnal a chadw | - | *maintenance* |

# sylfaen 2

## y daith i'r gwaith

tiwtor

**Nod: Dechrau dysgu am fywyd y chwarelwyr trwy drafod y daith i'r gwaith.**

**Camau**

1. Rhannu'r grŵp yn dri, a phob grŵp bach i drafod un o'r dynion.

2. Wedyn grwpiau newydd i drafod y tri dyn ac i gyfnewid gwybodaeth wrth lenwi'r grid.

3. Mae gan y tri hanes yma gyd-destun amaethyddol; ni fyddai hyn wedi bod yn nodweddiadol o bob chwarelwr. Er enghraifft, roedd chwarelwyr Deiniolen ger Llanberis yn byw mewn tai teras, efo gardd ond dim tir.





# sylfaen 2

## y daith i'r gwaith

dysgwr

Roedd pobl yn dod o bell ac agos i weithio yn y chwarel. Dyma hanes tri dyn.



**Tomos, 1920au**
- Byw yn Llangaffo, Ynys Môn
- Dydd Llun – codi am 3.00 o'r gloch y bore
- Cerdded i Foel-y-don a mynd i'r Felinheli ar y fferi
- Dal y trên 6.00 o'r gloch i'r Gilfach Ddu
- Cerdded i'r bonc
- Byw yn y Barics ar ochr y mynydd drwy'r wythnos
- Cario bwyd o'r tyddyn ym Môn
- Mynd adre bnawn Sadwrn

Roedd ei wraig yn gweithio ar y tyddyn ac yn y tŷ.



**Huw, 1940au**
- Byw yn y Ceunant yn Llanrug
- Codi am 5.00 o'r gloch y bore
- Godro a bwydo'r anifeiliaid
- Cerdded dros dair milltir i'r Stesion yn Y Stablau ger Waunfawr
- Dal y trên bach i'r Gilfach Ddu
- Cerdded i fyny i'r bonc
- Gweithio drwy'r dydd ar y graig
- Mynd adre yr un ffordd
- Gweithio ar y tyddyn eto

Roedd ei wraig yn gweithio ar y tyddyn ac yn y tŷ.



**Dafydd, 1950au**
- Byw yn Nant Peris
- Codi am 6.00 o'r gloch bob bore
- Reidio beic i lawr y Nant
- Gadael y beic ar fferm ei rieni a cherdded i'r bonc
- Gweithio drwy'r dydd yn y wal
- Cerdded i'r fferm
- Helpu ar y fferm
- Reidio'r beic adre
- Mynd i'r côr ac i bwyllgorau gyda'r nos

Roedd ei wraig yn gweithio yn y tŷ.



# sylfaen 2

## y daith i'r gwaith

dysgwr

| | TOMOS | HUW | DAFYDD |
|---|---|---|---|
| Byw? | | | |
| Pryd? | | | |
| Cychwyn o'r tŷ? | | | |
| Teithio? Sut? | | | |
| Cyrraedd adre? | | | |
| Gyda'r nos? | | | |

# sylfaen 3

## hollti a naddu

## tiwtor

**Nod: Gweld y chwarelwr yn hollti a naddu llechi.**

**Camau**

1. Gwylio sesiwn Hollti a Naddu. Bydd y chwarelwyr yn dilyn sgript syml iawn.





# sylfaen 4

## yr olwyn ddŵr a'r neuadd bŵer

## tiwtor

**Nod: Ymweld â'r Olwyn Ddŵr a'r Neuadd Bŵer er mwyn deall sut roedd holl beiriannau'r chwarel yn gweithio. Gwneud hyn trwy ddarllen paneli gwybodaeth ac ymweld â'r safleoedd i chwilio am atebion i gwestiynau ac yna trafod yr atebion.**

**Camau**

1. Darllen y taflenni a chyflwyno'r dasg yn Stafell Padarn.


2. Mynd allan i wneud y tasgau.

3. Dod yn ôl i drafod yr atebion.

# sylfaen 4

## yr olwyn ddŵr a'r neuadd bŵer — dysgwr

**Cerddwch trwy'r Amgueddfa i chwilio am y paneli Ynni i'r Gweithdai a'r Olwyn Ddŵr.**



**Ynni**

Roedd angen llawer o ynni i redeg y gweithdai.

Beth wnaethon nhw ei ddewis?

______________________________

Pam wnaethon nhw ei ddewis o?

______________________________

**Yr Olwyn Ddŵr**

Dyma'r Olwyn Ddŵr ________________ ym Mhrydain.

Pwy wnaeth ei hadeiladu hi? ________________

Pryd? ________________

Pryd wnaethon nhw ei thrwsio hi? ________________

Pryd wnaethon nhw stopio'i defnyddio hi? ________________

Beth sy'n gyrru'r peiriannau heddiw? ________________

O le mae'r dŵr yn dod i yrru'r olwynion? ________________

Oes angen pwmp i bwmpio'r dŵr i fyny i danc yr olwyn? ________________

(Os ewch chi am dro i fyny Llwybr yr Wyddfa o Lanberis mi fyddwch chi'n gweld Afon Hwch a Rhaeadr Ceunant. Dyma'r dŵr sy'n mynd i danc yr Olwyn Ddŵr trwy bibelli. Mae'r rhaeadr yn uwch na'r tanc felly does dim angen pwmp i gael y dŵr yno.)

Ewch i fyny i weld yr Olwyn Ddŵr.

# sylfaen 4

## yr olwyn ddŵr a'r neuadd bŵer

dysgwr

**Y Neuadd Bŵer**

**Ewch i mewn i'r Neuadd.**

**Chwiliwch am Olwyn Pilton**

Ers pryd mae'r olwyn yma'n gyrru holl beiriannau'r safle? ____________________

Ydy hi'n fawr? ____________________

Chwiliwch am yr echel.

Mae'r echel yn mynd trwy'r holl weithdai.

Yr echel oedd yn cario'r ynni i droi'r beltiau.

Y beltiau oedd yn gweithio'r peiriannau i gyd.

**Dilynwch yr echel trwy'r gweithdai i weld y gwaith oedd yn digwydd yma.**

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| chwilio am | - | *to look for* |
| gweithdai | - | *workshops* |
| angen | - | *need* |
| ynni | - | *power, energy* |
| rhaeadr | - | *waterfall* |
| echel | - | *shaft* |
| dilyn | - | *to follow* |

# sylfaen 5

## pobl Fron Haul

tiwtor

**Nod: Dysgu pwy oedd yn byw yn Nhai Fron Haul**

**Camau**

1. Cyfarfod yn Stafell Padarn cyn mynd ar ymweliad byr i'r tai.

2. Gofyn iddyn nhw feddwl yn ofalus wrth fynd o gwmpas y tai am faint o stafelloedd a faint o le oedd ynddynt.

3. Ar ôl dod yn ôl, rhannu'n dri grŵp i drafod un tŷ yr un: bydd taflen wahanol i bob grŵp.

4. Cymysgu'r grwpiau i drafod y tai i gyd wrth lenwi'r grid

5. Trafod sut oedd cymaint o bobl yn medru byw mewn lle mor fach.
   Roedd saith o bobl yn byw mewn tŷ fel Rhif 3 ar un adeg.



# sylfaen 5

## pobl Fron Haul

## dysgwr

**Rhif 3 – Tanygrisiau yn 1861 – Oes Aur y Diwydiant Llechi**

Yn ôl Cyfrifiad 1861 roedd pedwar o bobl yn byw yno:

William Williams, o Drawsfynydd yn wreiddiol.

Ellen Williams, o Lanbedr, Sir Feirionnydd yn wreiddiol.

Roedd brawd William yn byw efo nhw.

Roedd lojar o Sir Fôn yn byw yno hefyd.

Roedd y dynion yn gweithio oriau hir iawn yn y chwarel.

Gwaith y wraig oedd edrych ar ôl y cartref. Roedd ei gwaith hi'n bwysig iawn i'r teulu. Roedd y dynion yn gweithio oriau mor hir roedd hi'n amhosib iddyn nhw helpu yn y cartref.

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfrifiad | - | *Census* |
| oriau | - | *hours* |

Pam bod blanced ar draws y stafell a matres yn y gornel?

# sylfaen 5

## pobl Fron Haul

## dysgwr

**Rhif 2 – Bethesda yn 1901 – Amser Streic Fawr Chwarel y Penrhyn**

Roedd gŵr a gwraig a tri o blant yn byw yno.

Roedd y tad ar streic.

Roedd y ferch yn 17 oed ac yn gweini – gweithio fel morwyn. Ei chyflog hi oedd yn cadw'r teulu.

Roedd bachgen oed ysgol yno.

Babi oedd y trydydd plentyn. Mae crud yn y stafell wely.

Fel arfer, roedd y dynion yn gweithio oriau hir iawn yn y chwarel. Gwaith y wraig oedd edrych ar ôl y cartref. Roedd ei gwaith hi'n bwysig iawn i'r teulu. Roedd y dynion yn gweithio oriau mor hir roedd hi'n amhosib iddyn nhw helpu yn y cartref.

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| gweini | - | *to be in service* |
| morwyn | - | *maid* |
| oriau | - | *hours* |

Pam bod cês ar hanner ei bacio ar y llawr?

**Rhif 1 – Llanberis yn 1969 – amser cau Chwarel Dinorwig**

Roedd tri person yn byw yno.

Tad – oedd wedi colli ei waith yn y chwarel yn ystod yr haf.

Mam – oedd yn gweithio mewn ffatri gwneud dillad yn Llanberis. Dyma'r 'chwarel i ferched'.

Mab - oedd  yn ei arddegau ac yn dal yn yr ysgol.

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| yn ystod | - | *during* |
| arddegau | - | *teens* |

Pam bod posteri ar wal ei stafell wely?

# sylfaen 5

## pobl Fron Haul

## dysgwr

**Tai Fron Haul**

| | Rhif 3 | Rhif 2 | Rhif 1 |
|---|---|---|---|
| Pwy oedd yn byw yno? | | | |
| Pryd oedden nhw'n byw yno? | | | |
| Faint o bobl oedd yn byw yno? | | | |
| Faint o blant oedd yn byw yno? | | | |
| Beth oedd gwaith y dynion? | | | |
| Beth oedd gwaith y merched? | | | |

# sylfaen 6

## sesiwn fwyd yn y tai

**tiwtor**

**Nod: Cymryd rhan mewn sesiwn i drafod bwyd.**

**Camau**

1. Mynd â'r grŵp i'r Tŷ Addysg, Fron Haul. Yno bydd y Swyddog Addysg yn cynnal gweithdy ymarferol, yn cynnwys cyfle i drin a thrafod rhai o'r pethau yn y tai, yn arbennig ynglŷn â bwyd. (Bydd angen bwcio sesiynau efo'r Swyddog Addysg ymlaen llaw.)

2. Ar ddiwedd y sesiwn, mynd â'r grŵp yn ôl i Stafell Padarn i drafod.

